

Cyngherddau Nadolig Rhithiol Ysgol Glanrafon 2020

Ysgol Glanrafon's Virtual Christmas Concerts 2020



Mae pob dosbarth/adran wedi bod yn hynod o brysur yn ffilmio'u cyngerdd Nadolig eleni er mwyn eu rhoi ar Seesaw (Cyfnod Sylfaen) a Microsoft Teams (Cyfnod Allweddol 2). Byddant yn cael eu huwchlwytho a'u rhannu gyda chi **Dydd Mercher yma, Rhagfyr 16** ac fe fydd holl disgyblion yr ysgol yn cael y cyfle i wyllo perfformiadau ei gilydd yn yr ysgol ar y diwrnod hwnnw. Gofynnwn yn garedig i chi **BEIDIO** ar unrhyw achlysur lawrlwytho a rhannu'r recordiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyflwyniadau ar gyfer eich defnydd personol chi **yn unig** felly ni fyddwn yn gyrru linc ar yr app. Os ydych yn cael unrhyw drafferth cael mynediad i gyfrif Seesaw neu Hwb eich plentyn, gallwch gysylltu gyda Mrs Einir Huws drwy ebost sef Huwse@hwbcymru.net

Hoffwn gymeryd y cyfle yma i ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith a'u hymroddiad yn paratoi y plant ar gyfer y cyflwyniadau. Hefyd, diolch iddynt am roi y cyfan gyda'i gilydd er mwyn gallu ei rannu gyda chi yn rhithiol. Mae'r disgyblion wir wedi bod yn arbennig iawn ac wedi gwneud y broses yn un hwyliog a chofiadwy i bawb. Er fod y ffordd yma ychydig yn wahanol i'r arfer eleni, gobeithiwn y byddwch yn mwynhau gweld disgyblion Ysgol Glanrafon yn serennu ar y sgrin ar gyfer Nadolig 2020.

*Each class/unit have been very busy filming their Christmas concert this year so that we can upload them to Seesaw (Foundation Phase) and Microsoft Teams (Key Stage 2). They will be uploaded this **Wednesday, 16th December** and all the pupils will have the opportunity to watch each other's performances in class on that day. We kindly ask that you **DO NOT** download the videos nor share them on social media under any circumstances. The presentations are for your own personal use **only** therefore we will not be sending the links via the app. If you have any problems accessing your child's Seesaw or Hwb account, please email Mrs Huws on huwse@hwbcymru.net*

We would like to take this opportunity to thank all the staff for their hard work and commitment whilst preparing the children for their presentations. Also, thanks to them for making it possible to share these with you virtually. The pupils have been exceptional and have made the process a fun and memorable experience for everyone. Although this year is a little different to what we're used to, we hope that you enjoy seeing Ysgol Glanrafon's pupils shine on screen for Christmas 2020.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

MERRY CHRISTMAS AND A HAPPY NEW YEAR